**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Y Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**

HCS(108)
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru)
Ymateb gan: Y Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf / Our ref

Christine Chapman AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau,
Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

28 Mai 2014

Annwyl Christine

**TYSTIOLAETH I'R PWYLLGOR CYMUNEDAU, CYDRADDOLDEB A LLYWODRAETH LEOL - BIL SAFLEOEDD CARAFANNAU GWYLIAU (CYMRU)**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 1 Ebrill yn fy ngwahodd i roi cyfraniad at waith craffu eich Pwyllgor ar Fil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru) Darren Millar AC. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i wneud sylwadau.

Atodaf bapur yn amlinellu fy mhryderon ynghylch y Bil er mwyn helpu trafodaethau'r Pwyllgor. Nid wyf yn cefnogi'r Bil hwn fel y mae gan fy mod yn credu bod ganddo'r potensial i greu anfantais gystadleuol o fewn sector economaidd strategol bwysig yn yr economi twristiaeth. Wrth baratoi fy ymateb, rwyf wedi ystyried barn y cyrff yn y diwydiant, ac rwyf hefyd wedi cael trafodaethau gyda'r Gweinidog dros Dai ac Adfywio, sy'n cytuno â mi.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Edwina.Hart @ Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

## 1.0 Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn amlinellu sefyllfa'r Gweinidog dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gwyddoniaeth o ran effaith Bil drafft y Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru), Mesur Aelod Preifat, a gyflwynwyd gan Mr Darren Millar AC.

## 2.0 Effaith economaidd y sector

Mae'r sector carafanau yn cael ei gydnabod gan randdeiliaid allweddol yn niwydiant twristiaeth Cymru fel rhan bwysig iawn o economi ymwelwyr Cymru, oherwydd ei faint. Yn 2011 comisiynodd Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain (BH&HPA) a Chroeso Cymru astudiaeth effaith economaidd gyda'r amcanion canlynol:

- Darparu dealltwriaeth annibynnol, yn seiliedig ar dystiolaeth o effaith economaidd/cyfraniad uniongyrchol ac anuniongyrchol y sector parciau gwyliau yng Nghymru

Amcangyfrifir bod cyfanswm trosiant a gwariant ymwelwyr yn sgil diwydiant parciau gwyliau Cymru yn £727 miliwn y flwyddyn. Cyfrifwyd cyfanswm ei effaith economaidd i Gymru fel cyfraniad Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) o £317 miliwn y flwyddyn yn cefnogi cyfanswm o 10,645 o swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol yng Nghymru.

Amcangyfrifwyd mai cyfanswm nifer yr unedau parciau gwyliau/ lleiniau yng Nghymru oedd 71,700 y mae 64% ohonynt yn unedau sefydlog sy'n cael eu perchnogi (hy carafanau, cabanau, sialetau ac ati), mae 8% yn unedau sefydlog sy'n cael eu rhentu a 27% yn lleiniau teithiol (ar gyfer carafanau, pebyll, pebyll trelar a chartrefi modur).

## 3.0 Adborth o'r Diwydiant

Mae Bwrdd Cynghori ar Dwristiaeth y Gweinidog wedi dweud eu bod yn croesawu'r newidiadau a wnaed i'r Bil, yn enwedig y ffaith ei fod yn awr yn "Fil annibynnol" ac nad oes angen iddo gyfeirio at y Ddeddf gynharach yn ymwneud â'r DU i gael ei ddeall.

Ond mae'r Bwrdd Cynghori ar Dwristiaeth yn dal i ystyried y Bil fel "gordd i dorri cneuen"! Amlinellwyd nad yw'r Bil yn diffinio yn ddigonol beth yw maint y broblem yng Nghymru, yn enwedig ar Safleoedd Carafannau Gwyliau, lle mae pob arwydd yn dangos bod y broblem (o ddefnyddio carafannau gwyliau sefydlog ar gyfer preswylio parhaol) yn fach iawn. Yn yr un modd, mae'r problemau a brofwyd rhwng Perchnogion Safleoedd a Thenantiaid yn fach iawn hefyd, o ystyried maint y diwydiant yng Nghymru.

Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain (BH&HPA) yw corff cynrychioliadol y diwydiant parciau yn y DU. Mae 1,877 o aelodau BH&HPA yn berchen ar ac yn rheoli 2,922 o barciau sy'n cynnwys 385,056 o leiniau ledled y DU, gan gynnwys 423 o barciau gyda 53,912 o leiniau yng Nghymru. Mae BH&HPA wedi ymgysylltu â Mr Millar AC wrth ddatblygu ei Fil, ac er eu bod yn credu bod y gofynion a gynigir yn awr yn fwy pragmatig na'r fersiwn cynharach yr ymgynghorwyd â hwy yn ei gylch, mae pryderon difrifol sylweddol yn parhau.

Er enghraifft, mae'r diwydiant yn cydnabod yr angen i foderneiddio trwyddedu safleoedd ar gyfer parciau gwyliau, o dan Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 er mwyn rhoi adnoddau i awdurdodau lleol drwy daliadau priodol ar gyfer eu dyletswyddau trwyddedu. Ond yn hytrach na moderneiddio'r system, mae'r Bil yn cynnig diwygio chwyldroadol.

Barn BH&HPA yw bod newid ysgubol o'r fath yn creu risg ar gyfer y diwydiant a'i gyfraniad i economi Cymru. O ystyried maint y newidiadau arfaethedig, ni ddylent gael eu deddfu yn absenoldeb sylfaen dystiolaeth ar gyfer y problemau y mae'r Bil yn ceisio ymdrin â hwy na heb werthusiad priodol o'u costau a'u heffaith.

Mae Fforwm Carafannau a Gwersylla Cymru yn cydnabod bod ar y ddeddfwriaeth bresennol angen ei hadnewyddu ond roedd pryder ynghylch:

- Y ddeddfwriaeth sy'n cael ei chymhwyso at y sector teithiol lle nad oes problem ar hyn o bryd gyda defnydd preswyl
- Bydd y ddeddfwriaeth yn gosod baich biwrocrataidd sylweddol ar weithredwyr safleoedd carafannau, yn enwedig safleoedd llai
- Bydd y ddeddfwriaeth yn gwneud Cymru yn llai cystadleuol na rhannau eraill o'r DU
- Bydd cosbau yn cael eu cymhwyso'n gyfartal i berchennog parc gwyliau mawr iawn, a gweithredwr safle teithiol gyda 10 o leiniau
- Mae'r ddeddfwriaeth mor hir a manwl, fel y mae'n debygol o gael canlyniadau annisgwyl a fydd yn cael effaith negyddol ar y sector

## 4.0 Casgliad

Gan ystyried y safbwyntiau negyddol gan y sector twristiaeth i'r Bil hwn a'r potensial i greu anfantais gystadleuol o fewn sector economaidd strategol bwysig yn yr economi twristiaeth nid yw'r Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn cefnogi'r Bil.

Mae'r Gweinidog yn cytuno â barn y diwydiant o ran yr angen i ymgymryd ag ymchwil pellach i ddarparu sylfaen dystiolaeth effeithiol ar gyfer moderneiddio trwyddedu safleoedd ar gyfer parciau gwyliau, o dan Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960.